# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 4 Chwefror 2014** |
| Amser: | **08:30 - 09:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Lesley Griffiths**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Gynghorydd y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3(i) Busnes yr wythnos hon

Rhoddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am newidiadau i fusnes y Llywodraeth.

Nododd y Rheolwyr Busnes y cynhelir y pleidleisiau ar bob eitem o fusnes ac eithrio'r ddadl Cyfnod 3 cyn cychwyn trafodion Cyfnod 3 ddydd Mawrth, ac y byddai pob pleidlais mewn perthynas â'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cael ei chynnal yn ystod trafodion Cyfnod 3.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3(ii) Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i drefnu'r eitemau o fusnes a ganlyn:

**Dydd Mercher 5 Mawrth 2014**

- Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ar Isafswm Lefelau Staffio Nyrsys (Kirsty Williams) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer – William Graham (Dwyrain De Cymru) (30 munud)

3(iv) Dadl Aelod Unigol: Dewis y Cynnig ar gyfer y Ddadl

Dewisodd y Pwyllgor Busnes y cynnig a ganlyn ar gyfer dadl, a hynny drwy bleidlais wedi'i phwysoli, yn unol â Rheol Sefydlog 11.5(iv). Pleidleisiodd yr Aelodau a ganlyn o blaid y cynnig ar gyn-weithwyr Visteon: William Graham (14 o bleidleisiau) ac Elin Jones (11 o bleidleisiau). Pleidleisiodd yr Aelodau a ganlyn o blaid y cynnig ar ofal diwedd oes: Lesley Griffiths (17 o bleidleisiau) ac Aled Roberts (5 o bleidleisiau).

**Dydd Mercher 12 Chwefror 2014**

- **NNDM5423**

**Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) yr effaith andwyol y mae colli eu pensiynau wedi'i chael ar dros 700 o gyn-weithwyr Visteon sy'n byw yn ardal Abertawe a'r cyffiniau;

b) yr effaith ddilynol y mae colli pensiynau gweithwyr Visteon wedi'i chael ar economi Abertawe a'r cyffiniau;

c) y bydd pum mlynedd wedi mynd heibio ar 2 Ebrill eleni ers cau Visteon fel cwmni, a bod gorymdaith fawr yn cael ei threfnu yn San Steffan; a

d) bod eleni'n flwyddyn bwysig i'r ymgyrch, o ystyried y bydd achos llys Unite the Union yn erbyn Ford yn cael ei gynnal yn yr Uchel Lys yn Llundain ddiwedd 2014.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i effaith colli eu pensiynau ar weithwyr Visteon ac ar economi'r ardal lle maent yn byw.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylai'r ddadl nesaf gan Aelod unigol gael ei chynnal ddydd Mercher 26 Mawrth, 2014.

## 4 Deddfwriaeth

4(i) Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Y Bil Plant a Theuluoedd mewn perthynas â chynhyrchion tybaco a nicotin

Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn gysylltiedig â'r Bil Plant a Theuluoedd mewn perthynas â chynhyrchion tybaco a nicotin.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i beidio â chyfeirio'r Memorandwm atodol at bwyllgor at ddibenion craffu. Nododd y Rheolwyr y caiff y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ei drafod yn y Cyfarfod Llawn heddiw, ddydd Mawrth 4 Chwefror, 2014, yn amodol ar sicrhau bod y Cynulliad yn cytuno ar gynnig i atal y Rheolau Sefydlog i ganiatáu’r Cynulliad i drafod y cynnig. Bydd dadl 30 munud yn cael ei threfnu.

## UNRHYW FUSNES ARALL

Dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth wrth y Pwyllgor Busnes bod Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno gwelliant ychwanegol i'r Bil Plant a Theuluoedd heddiw ar ysmygu mewn ceir gyda phlant.

Mae'r Llywodraeth ar ddeall fod Trydydd Darlleniad y Bil yn ail Dŷ'r Senedd wedi ei drefnu ar gyfer dydd Mercher 5 Chwefror, 2014, ac y bydd Tŷ'r Cyffredin yn trafod gwelliannau Tŷ'r Arglwyddi ddydd Llun 10 Chwefror, sef y cyfnod diwygio diwethaf yn y broses. Mae hyn yn golygu mai'r unig gyfle i drafod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yw ar ddydd Mercher 5 Chwefror.

O gofio na fydd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei gyflwyno tan y prynhawn yma, cytunodd y Rheolwyr Busnes i beidio â chyfeirio'r Memorandwm atodol at bwyllgor at ddibenion craffu. Nododd y Rheolwyr y caiff y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ei drafod yn y Cyfarfod Llawn yfory, ddydd Mercher 5 Chwefror, 2014, yn amodol ar sicrhau bod y Cynulliad yn cytuno ar gynnig i atal y Rheolau Sefydlog i ganiatáu’r Cynulliad i drafod y cynnig.